

Prosiect Go Girls

Lansiwyd Prosiect Go Girls yn 2013, fel partneriaeth rhwng Charter Housing a Thai Cymunedol Bron Afon. Mae'r prosiect yn codi hyder merched ifanc rhwng 15-25 mlwydd oed, ac yn eu hybu i ddatblygu eu hunan-barch a'u cred yn hwy eu hunain a'u gallu. Drwy weithdai sy'n ymdrin â materion a chyfarfodydd misol sy'n rhoi cefnogaeth, mae Go Girls yn codi ymwybyddiaeth, yn grymuso merched ifanc ac yn eu helpu i ymdopi'n well gyda heriau bywyd.



Mae Go Girls yn ymwneud â rhannu syniadau a theimladau am fod yn ferch yng Nghymru, gan anelu at ddatblygu ymdeimlad cryf o hunaniaeth, parch a balchder.

“Mae grymuso merched o oedran ifanc yn bwysig iawn i ni,” dywedodd Abbie Clifford o Go Girls. “Mae pobl ifanc o bob cefndir yn dod i Go Girls, ac yn aml mae ganddynt lefelau isel o hyder a hunan-barch. Maen nhw'n dod at ei gilydd, wedi eu cefnogi gan Charter a Bron Afon, er mwyn cael llais a gwneud gwahaniaeth ynghylch materion sy'n gallu effeithio arnynt yn bersonol, boed hynny yn ymwneud â chydaddoldeb, cam-drin domestig neu lesiant personol. Ein nod yw bod merched yn meithrin cysylltiadau cadarn ac yn cefnogi ei gilydd i ymgyrchu ar faterion y maen nhw'n teimlo'n gryf yn eu cylch ac i rannu un llais fel merched cryf ac annibynnol.”

Ers iddo gael ei sefydlu bum mlynedd yn ôl, mae Go Girls wedi cefnogi dros 200 o ferched ifanc ar draws Gwent. Gan ddechrau gyda sesiynau blasu, mae'r merched

yn cwrdd bob pythefnos ac yn gweithio tuag at drefnu ymgyrchoedd a digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r syniad o gydraddoldeb rhywiol, perthnasau diogel, a iechyd a lles.

Mae Go Girls wedi gweithio ar brosiectau amrywiol ochr yn ochr â thîm Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent. Cynhaliwyd yn ddiweddar digwyddiad a oedd yn hoelio sylw ar ymgyrch #dymafi Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn Theatr Glan yr Afon Casnewydd. Nod y digwyddiad oedd herio'r normau rhwng y rhywiau a chefnogi'r rheini a oedd yn bresennol i roi eu barn am unrhyw anghydraddoldebau rhwng dynion a merched a stereoteipiau. Rhannwyd barn pawb mewn cyflwyniad ar ddiwedd y dydd.

Aeth Ms Clifford yn ei blaen i ddweud: "Mae rhai o'r ymatebion sy'n dod i law yn y digwyddiadau hyn yn ddadlennol iawn. I rai bobl mae sôn am anghydraddoldebau rhwng dynion a merched yn hawdd, ond i eraill mae'n heriol iawn. Rydym yn croesawu'r her hon achos mae'r math hwn o drafodaeth yn gallu arwain at newidiadau positif yn y dyfodol.

"Un o'r digwyddiadau mwyaf llwyddiannus a gynhaliwyd gennym oedd darn ar ffurf Theatr Fforwm ar gam-drin domestig, lle roedd hawl gan y gynulleidfa i roi stop ar yr hyn oedd yn digwydd unrhyw bryd a gweld yr hyn fyddai wedi digwydd petaent wedi ymyrryd ynghynt. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn, ac roedd yn gyfle i aelodau'r gynulleidfa weld drostyn nhw eu hunain effeithiau mater difrifol fel cam-drin domestig. Roedden nhw'n gallu ymwneud â'r pwnc mewn ffordd greadigol, sy'n llawer mwy effeithiol yn ein barn ni.

"Rwy'n falch o fod yn rhan o Go Girls a'i weld yn mynd o nerth i nerth dros y bum mlynedd ddiwethaf. Roedd cefnogi'r ymgyrch #dymafi mewn digwyddiad yng Nghasnewydd yn gyffrous i bawb oherwydd rydym yn awyddus i sbarduno newid cymdeithasol ac annog pobl i #BywhebOfn.

"Edrychwn ymlaen at barhau i ymladd yn erbyn yr anghydraddoldebau rhwng dynion a merched a rhoi llais i ferched ifanc ar draws y rhanbarth, i fwrw ati i fwynhau eu bywyd ac i wneud fel y mynnont."

Ychwnegodd aelod ifanc o'r grŵp: "Dylai pawb fod yn rhydd i fyw eu bywydau heb ofn a heb wahaniaethu, ar sail eu hoedran, eu rhywedd, eu cenedligrwydd neu eu

rhywioldeb. Dyna pam fy mod i a merched eraill sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn yn frwd dros yr ymgyrch #dymafi. Rwy'n gobeithio mewn misoedd a blynyddoedd i ddod y byddwn ni'n gallu symud ymlaen a byw ein bywydau yn hapus ac yn rhydd, gan wneud ein dewisiadau ein hunain."

Mae #dymafi yn rhan o ymgyrch ehangach Llywodraeth Cymru 'Byw Heb Ofn' sy'n rhoi gwybodaeth a chynghor i bobl yr effeithiwyd arnynt gan drais rhywiol, cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: bywhebofn.llyw.cymru/dymafi